Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Y.G. Cwm Gwyddon
# Heol Gwyddon
# Abercarn
# Casnewydd
# NP11 5GX

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Gwyddon o dan ofal awdurdod lleol Caerffili ac yn gwasanaethu ardal eang sy’n cynnwys pentrefi Trecelyn, Abercarn, Cwmcarn, Rhisga, a Hafod yr Ynys. Mae 242 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed yn yr ysgol, yn cynnwys 26 o blant oed meithrin a 15 oed cyn-feithrin. Mae disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol ar ddechrau’r tymor yn dilyn eu penblwydd yn dair oed. Dengys canlyniadau cyrhaeddiad yr ysgol bod mwyafrif y disgyblion â gallu cymhedrol wrth gychwyn.

Mae dros 18% o’r disgyblion â’r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy’n is na chyfartaledd yr awdurdod lleol a Chymru.

Mae 98% o’r disgyblion o gefndiroedd ethnig gwyn a thua 6% sy’n dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg.

Tua 12% o ddisgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ond does dim un â datganiad.

Bu nifer o newidiadau ymysg y staff ers yr arolygiad blaenorol yn Ionawr 2007, yn cynnwys y pennaeth a benodwyd ym Medi 2011 a’r dirprwy a benodwyd ddau fis yn ddiweddarach.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Gwyddon yn 2012-2013 yw £2,791. Yr uchafswm fesul disgybl yr ysgolion cynradd yng Nghaerffili yw £4,640 a'r lleiafswm yw £2,620. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Gwyddon yn safle 61ain o'r 75 ysgol gynradd yng Nghaerffili o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod ethos cynhwysol a chyfeillgar iawn yn bodoli;
- bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu;
- bod canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn cymharu'n dda gyda chyfartaledd ysgolion tebyg a Chymru gyfan;
- bod ymddygiad disgyblion yn dda iawn;
- bod bron pob disgybl yn frwdfrydig ac yn cyfranogi'n dda mewn gwersi;
- bod ansawdd yr addysgu yn gadarn; a
- bod systemau clir ar gyfer asesu cynnydd.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y pennaeth, y dirprwy a'r uwch dim rheoli yn rhannu gweledigaeth glir;
- bod y corff llywodraethol yn ymgymryd â'i rolau yn effeithiol iawn;
- ei bod yn mynd i'r afael â nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgu;
- bod arweinwyr yn adnabod yn glir ei chryfderau a'r meysydd i'w datblygu; a
- bod yr ysgol wedi meithrin amrediad eang o bartneriaethau defnyddiol sy'n cyfrannu'n dda tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau yn adeiladu'n briodol ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion ac yn hyrwyddo dilyniant a pharhad yn eu dysgu

A2 Rhannu arferion gorau addysgu ar draws pob dosbarth

A3 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wella eu gwaith eu hunain

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r Gymraeg yn rhugl ac yn effeithiol ar bob math o achlysur. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg. Mae'r mwyafrif yn medru darllen eu llyfrau darllen a gwaith eu hunain i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn medru ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau, gan atalnodi'n briodol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn medru siarad am eu gwaith yn hyderus. Gall y mwyafrif fynegi barn mewn modd aeddfed am wahanol faterion sydd o ddiddordeb iddyn nhw. Mae'r mwyafrif yn darllen deunyddiau pwrpasol ar goedd yn lled ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rhan fwyaf yn gallu ysgrifennu'n estynedig i ystod o bwrpasau yn y ddwy iaith. Mae'r rhan fwyaf yn atalnodi'n gywir ac yn cyflwyno'u gwaith yn drefnus a thaclus.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd da.

Yn 2012, mae 88% o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn perthynas â'u datblygiad mewn medrau iaith, mathemateg a phersonol (y dangosydd Cyfnod Sylfaen). Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig hefyd yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer medrau iaith, yn yr 50% uchaf o ran medrau mathemategol ac yn yr 50% isaf o ran medrau personol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae 96% o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd) yn 2012. Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mae'r tuedd yn gyffredinol ar i fyny dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r canran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig yn uwch na chyfartaledd y teulu yn y ddwy iaith, yn debyg mewn mathemateg ond yn is mewn gwyddoniaeth. Mae'n perfformio'n is na chyfartaledd Cymru yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ac yn yn uwch yn y Saesneg.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ar gyfer y canran sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ag ysgolion tebyg o ran disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn yr 50% uchaf yn y Gymraeg.

Dros gyfnod o bedair blynedd, nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched, nac ychwaith o gymharu disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim gyda'r gweddill.

**Lles: Da**

Mae ymddygiad disgyblion yn dda iawn mewn gwersi ac ar amseroedd eraill yn ystod y dydd. Mae bron pob un yn cyfranogi'n gydwybodol mewn gwersi ac yn frwdfrydig ynglŷn â dysgu.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae'r mwyafrif helaeth yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n iach ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rheolaidd a ddarperir gan yr ysgol i ymarfer y corff. Mae llawer yn manteisio ar y cyfleoedd i gymryd rhan mewn clybiau amrywiol ar ôl ysgol sy'n cyfrannu'n dda tuag at eu lles a chodi eu hyder.

Mae canran presenoldeb disgyblion tua 94% ac yn dangos tuedd ar i fyny. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim. Mae prydlondeb disgyblion yn dda.

Mae disgyblion hŷn yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfrifoldebau mae staff yn darparu iddynt, er enghraifft gofalu am y plant bach a sicrhau trefn yn y coridorau. Maent yn cymryd cyfrifoldeb aeddfed am eu gwaith ac yn dangos parch a gofal am eraill. Mae'r disgyblion yn hynod falch o'u hysgol ac maent yn manteisio ar gyfleoedd priodol i fynegi barn drwy eu cyfraniad i weithgareddau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco. Maent yn cyfrannu'n helaeth at waith elusennol yr ysgol drwy godi arian a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol yn y gymuned. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn effeithiol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod goeth o brofiadau dysgu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r ystod eang o brofiadau dysgu a ddarperir yn ddiddorol, yn ysgogol ac yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd da tuag at fodloni'r deilliannau dysgu angenrheidiol. Caiff yr ardal tu allan ei defnyddio'n helaeth gan staff y Cyfnod Sylfaen i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog i ddisgyblion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r profiadau dysgu diddorol yn ymdrin yn briodol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau allweddol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd ar gyfer datblygu'r medrau hyn bob amser yn adeiladu'n briodol ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad yn eu dysgu.

Mae'r rhaglenni ymyrraeth a anelir at ddisgyblion sydd â medrau llythrennedd a rhifedd isel, yn galluogi unigolion i gaffael y medrau angenrheidiol sydd eu hangen ar gyfer cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach. Mae staff yn darparu'n briodol ar gyfer herio disgyblion mwy abl a thalentog.

Mae gan y Cwricwlwm Cymreig le canolog yn rhaglen waith yr ysgol a chaiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg ei hyrwyddo'n effeithiol iawn. Mae'r amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir yn helpu disgyblion i ddatblygu nifer o fedrau personol a chymdeithasol allweddol yn dda.

Trwy hyrwyddo cynlluniau a blaengaredd fel ysgol eco yn llwyddiannus, mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gadarn drwy'r ysgol. Defnyddir adnoddau'n effeithiol i gefnogi'r dysgu. Ble mae'r addysgu ar ei orau, mae holi mentrus a chwestiynu treiddgar yn ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Mewn llawer o'r gwersi, mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm, maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir, yn sicrhau cyflymder da i'r sesiynau ac yn ysgogi disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, mewn ychydig sesiynau nid yw'r athrawon yn herio digon ar y disgyblion ac nid yw'r ddisgyblaeth bob amser yn ddigon cadarn.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o fwriadau dysgu gwersi. Maent yn gosod meini prawf llwyddiant ac yn defnyddio canmoliaeth yn effeithiol i annog y disgyblion llai hyderus. Mae'r disgyblion yn elwa o'r ffaith fod eu hathrawon yn trafod ansawdd eu gwaith mewn modd sensitif ac adeiladol. Caiff gwaith ysgrifenedig y disgyblion ei farcio yn rheolaidd a rhoddir sylwadau adeiladol ar fwyafrif yr ymdrechion. Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau o ddisgyblion yn cael eu herio i wella eu gwaith eu hunain ar ôl derbyn sylwadau gan yr athrawon.

Mae gan yr ysgol systemau clir ar gyfer asesu cynnydd a thracio disgyblion gan ddefnyddio profion safonol. Mae athrawon yn deall anghenion eu disgyblion yn dda ac ar y cyfan yn gwahaniaethu'n briodol er mwyn eu symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae adroddiadau i rieni yn glir ac yn llawn gwybodaeth. Mae rhieni a gofalwyr yn teimlo'u bod yn cael gwybodaeth dda iawn am gynnydd eu plant, ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymateb i'r adroddiad.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo a chefnogi iechyd a lles y disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn un hapus iawn lle teimla'r disgyblion yn ddiogel. Caiff iechyd a ffitrwydd y disgyblion eu hyrwyddo'n dda gan glybiau chwaraeon amrywiol a siop ffrwythau ddyddiol. Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned ac yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion gefnogi digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol lleol.

Gwneir defnydd da o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol gan gynnwys y gwasanaethau lles addysg, meddygol ac argyfwng ac mae'r disgyblion yn elwa o'r profiadau hyn.

Caiff disgyblion eu hannog i fwyta'n iach. Trwy weithgareddau corfforol yn ystod y dydd a chlybiau ar ôl ysgol, cânt amrywiaeth eang o gyfleoedd i gynyddu lefelau eu ffitrwydd ac iechyd.

Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda trwy gynllunio ystod eang o brofiadau. Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael i ddisgyblion a rhieni am fywyd yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys prosbectws a gwefan yr ysgol, cylchlythyrau rheolaidd ac adroddiad blynyddol y llywodraethwyr.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da yn gyson.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr. Caiff anghenion disgyblion eu hadnabod yn gynnar gan yr athrawon ac mae cynlluniau addysg unigol o ansawdd da ar eu cyfer. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu'n gyson mewn ymgynghoriad â'r disgyblion, y rhieni a'r asiantaethau arbenigol priodol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion sy'n fwy abl a thalentog yn datblygu'n dda.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol a chyfeillgar iawn yn yr ysgol. Mae cymuned glos a chroesawgar ac awyrgylch cynnes rhwng y staff a'r disgyblion. Dengys pawb yr awydd i helpu a chefnogi ei gilydd gan roi cyfle cyfartal i bawb. Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i ddeall a pharchu pobl eraill o gefndiroedd amrywiol a chânt eu paratoi'n dda ar gyfer y camau nesaf yn eu haddysg.

Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob un ac sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol. Mae'r rhain yn hysbys i'r holl randdeiliaid.

Gwneir defnydd pwrpasol o dir ac adeilad yr ysgol ar gyfer chwarae a dysgu gan ddilyn argymhellion y cyngor ysgol a'r cyngor eco. Ceir ystafelloedd dosbarth lliwgar gydag adnoddau digonol ar gyfer dibenion y cwricwlwm. Mae arddangosfeydd graenus o safon uchel ar draws yr ysgol sy'n symbylu'r dysgu. Dangosant enghreifftiau da o waith a llwyddiannau'r disgyblion. Caiff y safle a'r adeilad eu cadw'n lan a graenus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth, y dirprwy a'r uwch dim rheoli yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac maent yn llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus iawn i'r disgyblion, y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni. Mewn cyfnod cymharol fyr, mae'r pennaeth wedi llwyddo i adnabod prif gryfderau ac anghenion datblygu'r ysgol yn dda ac wedi rhoi gwelliannau ar waith yn effeithiol. Mae pob aelod staff yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n gydwybodol iawn. Mae'r cyfarfodydd staff, adran ac uwch dîm rheoli yn sicrhau cyfleoedd priodol i drafod materion allweddol yn rheolaidd, gan ganolbwyntio ar safonau a chynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol.

Mae'r corff llywodraethol yn ymgymryd â'i rolau mewn modd cyfrifol iawn. Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn

o'r ffordd mae'r ysgol yn perfformio. Mae'r cyngor ysgol yn eu tywys o gwmpas yr ysgol yn rheolaidd ac maent yn arsylwi ar wersi dosbarth er mwyn deall yn well yr hyn sy'n digwydd. Maent yn gweithredu'n effeithiol iawn fel ffrindiau beirniadol ac yn herio'r ysgol yn dda. Mae hyn yn nodwedd gref o fywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgu. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi ei sefydlu'n llwyddiannus, ac mae'r staff wedi datblygu nifer o gymunedau dysgu proffesiynol effeithiol iawn sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. Mae arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd llais y dysgwr ac yn sicrhau cyfleoedd priodol i hynny ddigwydd ymhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol o ansawdd da. Mae'n adnabod yn glir yr hyn mae'r ysgol yn ei wneud yn dda a'r meysydd i'w datblygu ymhellach. Mae'r broses hunan arfarnu yn greiddiol i fywyd bob dydd yr ysgol ac yn ystyried barn staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn effeithiol. Mae hefyd yn ystyried deilliannau arsylwadau gwersi, siarad â disgyblion a chraffu ar eu gwaith.

Mae deilliannau'r broses hunanarfarnu yn dylanwadu'n uniongyrchol ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen ddefnyddiol sy'n amlinellu'n glir y camau gweithredu, y deilliannau llwyddiant a'r effaith ar safonau. Mae blaenoriaethau'r cynlluniau datblygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2.

Mae cymuned ddysgu broffesiynol effeithiol yn bodoli o fewn yr ysgol sy'n galluogi staff i rannu a datblygu eu gwybodaeth er lles y disgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n agos ac yn rhannu arferion da gyda nifer o ysgolion eraill o fewn y clwstwr yn rheolaidd. Mae hon yn nodwedd gref.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi meithrin amrediad eang o bartneriaethau defnyddiol sy'n cyfrannu'n dda tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gyda rhieni a gofalwyr. Mae'r ysgol yn elwa'n ariannol ac yn gymdeithasol o gefnogaeth cymdeithas weithgar 'Ffrindiau Cwm Gwyddon'. Mae partneriaethau effeithiol gyda'r gymuned a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hardal leol.

Mae cysylltiad da gyda'r Cylch Meithrin sydd ar y safle yn hwyluso trefniadau derbyn disgyblion newydd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus iawn gyda'r clwstwr o ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd y mae'n ei bwydo er mwyn creu deunyddiau addysgu a rhannu adnoddau. Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac ar safonau, yn enwedig ar safonau llafar, darllen a ysgrifennu disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r ysgol uwchradd leol er mwyn paratoi'r disgyblion hŷn

ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Enghraifft effeithiol iawn o hyn yw'r ffordd mae athrawes bontio'n gweithio ar y cyd rhwng yr ysgol uwchradd a thair ysgol gynradd, gan gynnwys Cwm Gwyddon. Mae athrawon, ar y cyd gydag athrawon eraill o'r clwstwr, yn cymedroli a safoni asesiadau yn effeithiol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ac yn dod â thrylwyredd i'r broses.

Mae'r ysgol yn derbyn darpar athrawon o'r sector addysg uwch ar gyfnodau o brofiad gwaith sy'n gymorth i rannu arferion da a datblygu staff yn broffesiynol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr a rheolwyr yn rheoli'r adnoddau a ddyrennir i'r ysgol yn effeithiol, gan sicrhau trefniadau staffio priodol i addysgu'r cwricwlwm. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr dysgu yn meddu ar lefelau da o wybodaeth ac arbenigedd i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae trefniadau addas ar gyfer gwerthuso a rheoli perfformiad yr holl staff sy'n sicrhau cyfleoedd priodol i unigolion ddatblygu'n broffesiynol a chyflawni nodau cytûn yr ysgol. Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae rheolaeth o'r amser hwn yn dda.

Gwneir y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael y tu mewn a thu allan i'r adeilad i gyfoethogi'r cwricwlwm. Mae'r staff a'r disgyblion wedi cydweithio'n effeithiol iawn i greu amgylchedd dysgu ysgogol a deniadol.

Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn gysylltiedig â blaenoriaethau ar gyfer gwella safonau a lles y disgyblion. Rheolir cyllideb yr ysgol yn dda gan roi ystyriaeth berthnasol i adroddiadau cyllidol yn rheolaidd. Gwneir defnydd effeithiol o symiau sylweddol a dderbynnir drwy gymhorthdal a phrosiectau fel y prosiect i wella'r ardd.

O ystyried safonau disgyblion, yr ethos a'r gofal, ansawdd yr addysgu a'r cyswllt cadarn gyda phartneriaid, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Gwyddon yw'r ddegfed ysgol o ran her yn y teulu o ysgolion tebyg.

Yn 2012, mae 88% o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn perthynas â'u datblygiad mewn medrau iaith, mathemateg a phersonol (y dangosydd Cyfnod Sylfaen). Mae hyn yn uwch o'i gymharu â chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg lle cyflawnodd 79% y dangosydd pwnc craidd a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, lle roedd y cyfartaledd yn 80%. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig hefyd yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer medrau iaith, yn yr 50% uchaf o ran medrau mathemateg a rhwng yr 50% isaf o ran medrau personol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae 96% o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd) yn 2012. Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg lle cyflawnodd 82% y dangosydd pwnc craidd a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, lle roedd y cyfartaledd yn 83%. Mae'r tuedd yn gyffredinol ar i fyny dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r canran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig yn uwch na chyfartaledd y teulu yn y ddwy iaith, yn debyg mewn mathemateg ond yn is mewn gwyddoniaeth. Mae'n perfformio'n is na chyfartaledd Cymru yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ac yn yn uwch yn y Saesneg.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ar gyfer y canran sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ag ysgolion tebyg o ran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn yr 50% uchaf yn y Gymraeg.

Dros gyfnod o bedair blynedd, nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched, nac ychwaith o gymharu disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim gyda'r gweddill.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron disgyblion**

Cafwyd 100 ymateb gan y disgyblion.

Mae pob un o'r farn:

- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;

Mae bron pob un o'r farn:

- eu bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach; a
- bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd.

Mae'r rhan fwyaf o'r farn:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio;
- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol iddyn nhw gael ymarfer corff;
- bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith yn yr ysgol;
- bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron iddyn nhw wneud eu gwaith; a
- bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae llawer o'r farn:

- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

Mae ymatebion disgyblion Ysgol Cwm Gwyddon yn cymharu'n gadarnhaol gydag ymatebion cyfartalog disgyblion ar draws Cymru ym mhob datganiad.

**Holiaduron rhieni**

O'r 24 o ymatebion a gafwyd gan rieni:

Roedd pob un o'r farn;

- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol hon;
- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod yr addysgu'n dda;
- bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei orau;

- bod gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- y caiff eu plentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod eu plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb;
- bod eu plentyn wedi ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o'r farn:

- eu bod yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol;
- bod eu plentyn wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuon nhw yn yr ysgol;
- bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn;
- bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem; a'u
- bod yn deall y drefn ar gyfer delio â chwynion;

Mae llawer o'r farn:

- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau ar gael.

Mae ymatebion rhieni Ysgol Cwm Gwyddon yn cymharu'n gadarnhaol gydag ymatebion cyfartalog rhieni ar draws Cymru ym mhob datganiad ond un, sef bod amrywiaeth dda o weithgareddau ar gael, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Meinir Howells | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Eifion Watkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Anita Tucknutt | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.